



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

12/2025

DYDDIAD CYHOEDDI:

06/02/2025

Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: adroddiad cymharu camau 1 a 2

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Arolwg canfyddiadau a champau gweithredu newid hinsawdd: adroddiad cymharu camau 1 a 2

Awdur: Colin Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright; C, (2025). Arolwg Canfyddiadau a Champau Gweithredu Newid Hinsawdd Adroddiad Cymharu Camau 1 a 2. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2025.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-canfyddiadau-champau-gweithredu-newid-hinsawdd-ton-1-2>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Laura Entwistle

Is-adran: Y Tîm Ymchwil Hinsawdd ac Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddacAmgylchedd@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr ffigurau	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Cymharu'r Camau	5
3. Casgliad	17

Rhestr tablau

Tabl 2.1 – Crynodeb o waith maes Cam 1 a Cham 2.....	5
--	---

Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1: Cyfran yr ymatebwyr a nododd bod gan grŵp lawer / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr cefn gwlad a phentref bach - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'	8
Ffigur 2.2: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus am newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr 18 i 34 oed - 'Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'	9
Ffigur 2.3: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi bod gan grŵp lawer / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr 18 i 34 oed - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'	10
Ffigur 2.4: Teithio ar awyren yn ôl incwm aelwyd: pawb a'r enillwyr uchaf ac isaf - 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? Awyren' Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn a 3 neu 4 gwaith y flwyddyn	15

Geirfa

Dewisiadau gwyrdd

Dewisiadau gwyrdd yw'r dewisiadau y gallwn eu gwneud yn ein bywydau bob dydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd o'n hynni cartref, i ymddygiadau trafnidiaeth, bwyd a defnydd.

Sero Net

Lle mae'r nwyon tŷ gwydr a gymerir o'r atmosffer yn cydbwysu â'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru.

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad cryno hwn yn cymharu'r prif ganfyddiadau o ddau gam cyntaf yr arolwg meintiol Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd o aelwydydd yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolygon gan Lywodraeth Cymru i ddeall agweddau ac ymddygiadau yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o newid ymddygiad a chymdeithas ac yn hysbysu datblygiad a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o ran datgarboneiddio.
- 1.2 Bydd nodau'r ymchwil yn cael eu bodloni trwy ymchwil gynradd gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru dros chwe cham chwe-misol, â tharged o 1,000 o ymatebion fesul cam.
- 1.3 Mae'r Adroddiad Methodoleg Cam 1 a 2 yn rhoi rhagor o fanylion am ddylunio a darparu arolygon, ynghyd â chymhariaeth o samplau arolwg ar gyfer Camau 1 a 2 yn erbyn data Cyfrifiad 2021 a setiau data cenedlaethol perthnasol eraill.
- 1.4 Mae Adroddiadau Allbynnau Arolwg Camau 1 a 2 yn darparu allbynnau allweddol o bob arolwg unigol, gan ddangos y sefyllfa bresennol a nodir unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng ymatebion wrth ddadgyfuno'r sampl.

Strwythur yr adroddiad

- 1.5 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb lefel uchel o allbynnau allweddol o Gam 1 a Cham 2, gan dynnu sylw at debygrwydd rhwng ymatebion a gwahaniaethau lle maent yn codi.
- 1.6 Mae'r holl allbynnau yn dangos ymatebion heb eu pwysoli ac felly ni ellir eu cymryd yn ystadegol i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, ond mae'r ymatebwyr yn gyfunol yn gyffredinol gynrychiadol o'r boblogaeth honno yn ôl newidynnau demograffig allweddol. Mae'r allbynnau yn ganlyniad o ddadansoddiad deunewidyn a gynhaliwyd ar yr ymatebion i'r arolwg.
- 1.7 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn.
 - Adran 2 – Cymharu'r Camau
 - Adran 3 – Casgliad

Cymharu'r Camau

Gwaith maes

- 1.8 Gwnaed gwaith maes arolwg Cam 1 ym mis Awst a mis Medi 2023, a gwnaed gwaith maes arolwg Cam 2 ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024.
- 1.9 Darperir crynodeb o'r gwaith maes a'r ymatebion ar gyfer Cam 1 a Cham 2 yn Tabl 2.1.

Tabl 2.1 – Crynodeb o waith maes Cam 1 a Cham 2

	Cam 1	Cam 2
Dyddiadau gwaith maes	19/08/2023 – 14/09/2023	06/02/2024 – 17/03/2024
Cardiau post a ddosbarthwyd	13,715	15,761
Arolygon a gwblhawyd	949	943
Nifer a gwblhawyd ar-lein	835	764
Nifer a gwblhawyd wyneb yn wyneb	114	179
Nifer a gwblhawyd yn Gymraeg (ar-lein)	7	18
Cyfradd ymateb	6.9%	6.0%

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 1 a Cham 2, 2024

- 1.10 6.9% oedd y gyfradd ymateb ar gyfer Cam 1, o'i gymharu â 6.0% ar gyfer Cam 2. Roedd angen dosbarthu mwy o gardiau post a darparu mwy o gyfweiliadau wyneb yn wyneb yng Ngham 2 i sicrhau bod nifer foddhaol o arolygon yn cael eu cwblhau.
- 1.11 Fel cyfran o arolygon ar-lein, 2.4% oedd y ganran a gwblhawyd yn Gymraeg yng Ngham 2 a 0.8% yng Ngham 1.

Demograffeg y samplau

- 1.12 Cymharwyd nodweddion demograffig Camau 1 a 2 â setiau data cenedlaethol ar gyfer Cymru i sicrhau bod y sampl yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach. Roedd cwestiynau demograffig yn cwmpasu oedran, gwrywod a benywod, ethnigrwydd, lleoliad, statws gwaith, galwedigaeth, incwm aelwyd, math o eiddo, a deiliadaeth.
- 1.13 Mae cymariaethau'n dynodi bod Camau 1 a 2 yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru. Roedd allbynnau'r arolwg yn cymharu'n dda ochr yn ochr â setiau data cenedlaethol ar gyfer oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws gwaith, incwm

aelwyd, a galwedigaeth. Gwelwyd amrywiadau bach rhwng data'r arolwg a setiau data cenedlaethol ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo.

- 1.14 Nodwyd mân wahaniaethau rhwng ymatebion Camau 1 a 2 o ran incwm aelwyd a math o eiddo. Ar gyfer incwm aelwyd, denodd Cam 2 lai o ymatebwyr o'r bandiau incwm isaf na Cham 1. £41,000 oedd yr incwm aelwyd cyfartalog bras ar gyfer Cam 2 a £38,500 ar gyfer Cam 1. Yng Ngham 1 ac yng Ngham 2, ni rannodd 26% o'r ymatebwyr incwm eu haelwyd.
- 1.15 Ar gyfer math o eiddo, roedd cyfran yr ymatebwyr sy'n byw mewn tai sengl, tai pâr a fflatiau yn debyg ar draws Cam 1 a Cham 2. Fodd bynnag, dangosodd Cam 2 fod 35% o'r ymatebwyr yn byw mewn tai teras, o'i gymharu â 42% yng Ngham 1. Mae hyn oherwydd manau cychwyn y cyfweiliadau a ddewiswyd ar hap.
- 1.16 Rhoddir y gymhariaeth lawn yn Adroddiad Methodoleg Cam 2.

Patrymau demograffig

- 1.17 Dadansoddwyd y data demograffig ymhellach i nodi cysylltiadau rhwng y gwahanol nodweddion demograffig ac i amlygu unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr Cam 1 a Cham 2. Ar y cyfan, roedd nodweddion y sampl yn debyg iawn rhwng Cam 1 a Cham 2.
- 1.18 Roedd ymatebwyr benywaidd i'r arolwg yn iau nag ymatebwyr gwrywaidd i'r arolwg yng Ngham Cam 1 ac yng Ngham 2. Yng Ngham 1, roedd 44% o'r ymatebwyr benywaidd yn 44 oed neu iau o'i gymharu â 26% o ymatebwyr gwrywaidd. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cam 2 oedd 42% o ymatebwyr benywaidd 44 oed neu iau o'i gymharu â 31% o ymatebwyr gwrywaidd.
- 1.19 Roedd ymatebwyr iau yn dueddol o fyw yng nghanol dinas neu dref fawr, tra bod ymatebwyr hŷn yn dueddol o fyw ym maestrefi dinas neu dref fawr, neu yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach. Yng Ngham 1, roedd 58% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr rhwng 18 a 44 oed, o'i gymharu â 42% o'r ymatebwyr 45 oed a hŷn. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cam 2 oedd 66% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr rhwng 18 a 44 oed, o'i gymharu â 34% o ymatebwyr 45 oed a hŷn.
- 1.20 Cefn gwlad neu bentref bach oedd y math o ardal â'r gyfran uchaf o ymatebwyr â galwedigaeth crefft fedrus ar draws y ddau gam (20% yng Ngham 1, 16% yng Ngham 2).

1.21 Roedd yn well gan gyfran fawr o ymatebwyr beidio â rhannu incwm eu haelwyd. Roedd y grŵp hwn yn dueddol o fod yn hŷn (33% o ymatebwyr 65 oed yng Ngham 1, 31% yng Ngham 2), o fyw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach (38% yng Ngham 1, 28% yng Ngham 2), yn aml yn meddu ar grefft fedrus (37% yng Ngham 1, 35% yng Ngham 2), ac yn dueddol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain yn llwyr (63% yng Ngham 1, 59% yng Ngham 2).

Canfyddiadau ac agweddau

1.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar newid hinsawdd.

1.23 Ar draws yr holl ymatebwyr o Gamau 1 a 2, roedd cytundeb cyffredinol bod newid hinsawdd yn digwydd a'i fod yn cael ei achosi'n llwyr (15% o'r ymatebwyr yng Ngham 1 a 14% o'r ymatebwyr yng Ngham 2) neu'n bennaf gan weithgarwch dynol (44% o'r ymatebwyr yng Ngham 1, 46% yng Ngham 2).

1.24 Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o gredu nad yw newid hinsawdd yn digwydd, neu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol (12% yng Ngham 1, 10% yng Ngham 2) nag ymatebwyr benywaidd (4% yng Ngham 1 ac yng Ngham 2). Roedd ymatebwyr gwrywaidd hefyd yn llai pryderus am effeithiau newid hinsawdd nag ymatebwyr benywaidd (58% o ymatebwyr gwrywaidd yn bryderus iawn / gweddol bryderus yng Ngham 1, 56% yng Ngham 2, 77% o ymatebwyr benywaidd yn bryderus iawn / gweddol bryderus yng Ngham 1, 74% yng Ngham 2).

1.25 Dywedodd ymatebwyr gwrywaidd hefyd bod ganddynt fwy o wybodaeth nag ymatebwyr benywaidd am:

- Sero Net: dywedodd 49% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn gwybod cryn dipyn / llawer o'i gymharu â 22% o ymatebwyr benywaidd yng Ngham 1, 52% o'i gymharu â 26 y cant yng Ngham 2
- Targedau Sero Net: dywedodd 25% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn gwybod cryn dipyn/llawer o'i gymharu â 15% o ymatebwyr benywaidd yng Ngham 1, 31% o'i gymharu ag 16% yng Ngham 2 a;
- Dewisiadau Gwyrdd Llywodraeth Cymru: dywedodd 26% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn gwybod cryn dipyn/llawer o'i gymharu ag 16% o ymatebwyr benywaidd yng Ngham 1, 31% o'i gymharu â 17% yng Ngham 2.


1.26 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gyfrifoldeb yr oeddent yn ei gredu sydd gan wahanol grwpiau am fynd i'r afael â newid hinsawdd. Yn ôl math o ardal, roedd y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn neilltuo llai o gyfrifoldeb am fynd

i'r afael â newid hinsawdd i'r cyhoedd yn gyffredinol a grwpiau cymunedol nag ymatebwyr sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Roedd y gwahaniaeth hwn yn fwy amlwg yng Ngham 1 nac yng Ngham 2:

- Dywedodd 53% o ymatebwyr Cam 1 sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach bod gan y cyhoedd yn gyffredinol 'lawer' neu 'rywfaint' o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd o'i gymharu â 70% o'r holl ymatebwyr. Yng Ngham 2, dywedodd 69% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yr un fath, o'i gymharu â 72% o'r holl ymatebwyr.
- Dywedodd 50% o ymatebwyr Cam 1 sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach bod gan eu cymuned leol 'lawer' neu 'rywfaint' o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd o'i gymharu â 64% o'r holl ymatebwyr. Roedd y gwahaniaeth yn llai yng Ngham 2, wrth i 60% o'r rhai yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach ddweud yr un fath o'i gymharu â 63% o holl ymatebwyr Cam 2.

1.27 Ar y cyfan, roedd ymatebion Cam 2 yn dangos llai o amrywiad yn ôl math o ardal (Ffigur 0.1).


Ffigur 0.1: Cyfran yr ymatebwyr a nododd bod gan grŵp lawer / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr cefn gwlad a phentref bach - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'



Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 1 a Cham 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Cyfrifoldeb a Math o ardal. Sylfaen C1 = 868-886 (Cefn gwlad neu bentref bach = 255-260), Sylfaen C2 = 876-881 (Cefn gwlad neu bentref bach = 219-224)

- 1.28 Roedd pryder am newid hinsawdd ar draws yr holl ymatebwyr yn debyg yn y ddau Gam. Yng Ngham 1, dywedodd 68% eu bod yn bryderus iawn/gweddol bryderus o'i gymharu â 66% o'r holl ymatebwyr yng Ngham 2 (Ffigur 2.2).
- 1.29 Yn ôl oedran, roedd ymatebwyr iau Cam 1 (18 i 34 mlwydd oed) yn fwy pryderus am newid hinsawdd nag ymatebwyr o grwpiau oedran eraill, ond yng Ngham 2 roedd y grŵp oedran hwn yn dangos llai o bryder nag yng Ngham 1 (77% o bobl 18 i 34 mlwydd oed yn bryderus iawn / gweddol bryderus yng Ngham 1, 69% yng Ngham 2, Ffigur 0.2).


Ffigur 0.2: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus am newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr 18 i 34 oed - 'Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'



Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 1 a Cham 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Pryder. Sylfaen C1 = 920 (18 i 34 = 180), Sylfaen C2 = 901 (Cefn gwlad neu bentref bach = 175)

- 1.30 Roedd ymatebwyr iau hefyd yn neilltuo lefelau uwch i gyfrifoldeb ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol na grwpiau oedran eraill, gan awgrymu safbwynt y dylai fod mwy o gyfrifoldeb cyfunol am fynd i'r afael â newid hinsawdd. Yn yr un modd â phryder am newid hinsawdd, roedd y gwahaniaeth hwn i grwpiau oedran eraill yn fwy amlwg yng Ngham 1 nac yng Ngham 2 (Y cyhoedd yn gyffredinol â "llawer" neu "rywfaint" o gyfrifoldeb 81% yng Ngham 1, 76% yng Ngham 2; cymuned leol 76% yng Ngham 1, 66% yng Ngham 2; eich cyngor 90% yng Ngham 1, 83% yng Ngham 2). Dangosir hyn yn Ffigur 0.3 ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer yr holl ymatebwyr sy'n gymharol debyg rhwng y camau.

Ffigur 0.3: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi bod gan grŵp lawer / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: yr holl ymatebwyr ac ymatebwyr 18 i 34 oed - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'



Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 1 a Cham 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen C1 = 877-895 (18 i 34 = 174-177), Sylfaen C2 = 883-898 (18 i 34 = 170-173)

- 1.31 Ar y cyfan, roedd canfyddiadau ac agweddau ymatebwyr Cam 1 a Cham 2 yn debyg. Roedd rhai gwahaniaeth ymhlith ymatebwyr iau o ran lefelau'r pryder am newid hinsawdd a neilltuo lefelau o gyfrifoldeb am newid hinsawdd i grwpiau cymdeithasol.

Ynglŷn â'ch cartref

- 1.32 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ddefnydd o ynni yn eu cartref ac a oedd unrhyw fesurau arbed ynni yn cael eu defnyddio.
- 1.33 Roedd dros dri chwarter yr holl ymatebwyr yng Nghamau 1 a 2 yn talu eu biliau ynni trwy ddefnydd uniongyrchol (77% yng Ngham 1, 76% yng Ngham 2). Roedd yr ymatebwyr hyn yn dueddol o fod yn gyflogedig (81% yng Ngham 1, 80% yng Ngham 2) ac o fod yn berchen ar eu cartref yn llwyr neu ar sail morgais (85% yng Ngham 1, 87% yng Ngham 2). Yr ymatebwyr a oedd yn fwyaf tebygol o ddefnyddio mesurydd talu ymlaen llaw oedd y rhai a oedd yn ddi-waith (41% yng Ngham 1, 49% yng Ngham 2) a'r rhai sy'n rhentu eu llety (29% yng Ngham 1, 35% yng Ngham 2).
- 1.34 Dywedodd bron i'r holl ymatebwyr eu bod wedi cymryd o leiaf un cam i arbed ynni, beth bynnag for rheswm am wneud hynny (92% yng Ngham 1, 94% yng Ngham 2).

Yng Ngham 1 ac yng Ngham 2, roedd cyfran is o ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn cymryd camau arbed ynni na'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill. Fodd bynnag, er y gwelwyd y gwahaniaeth hwn yn ôl math o ardal ar draws pob cam arbed ynni yng Ngham 1, roedd y gwahaniaeth yn llai amlwg yng Ngham 2, â'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad yn ddim llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio llai o ddŵr poeth (47% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 45-49% o fathau eraill o ardal), yn tynnu plwg dyfeisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio (54% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 49-60% o fathau eraill o ardal) ac yn cadw rheiddiaduron yn glir (55% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 50-54% o fathau eraill o ardal) o'u cymharu â mathau eraill o ardal.

- 1.35 Roedd ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd hefyd yn llai tebygol o gymryd camau arbed ynni.
- 1.36 Roedd gan gyfran uwch o ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u gosod yn eu cartrefi na'r rhai ag incymau aelwyd is. Er enghraifft:
- Goleuadau clyfar: dywedodd 29% o ymatebwyr Cam 1 ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 bod ganddynt oleuadau clyfar yn eu cartrefi o'i gymharu â 6% o ymatebwyr ag incwm hyd at £19,999. Yng Ngham 2, dywedodd 22% o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch na £50,000 yr un fath, o'i gymharu â 6% ag incwm aelwyd hyd at £19,999.
 - Gwresogi clyfar: dywedodd 22% ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 bod ganddynt wresogi clyfar o'i gymharu â 9% o ymatebwyr ag incwm hyd at £19,999. Yng Ngham 2, dywedodd 21% o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch na £50,000 yr un fath, o'i gymharu â 4% ag incwm aelwyd hyd at £19,000.
- 1.37 Roedd mân wahaniaeth rhwng ymatebion Cam 1 a Cham 2 ar gyfer y cwestiynau Ynglŷn â'ch Cartref eraill a drafodwyd yn adroddiadau allbwn Cam 1 a Cham 2.

Bwyd

- 1.38 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y bwyd y maent yn ei fwyta'n bersonol ac sy'n cael ei fwyta gan eu haelwyd.
- 1.39 Cynhyrchion llaeth oedd y math o fwyd a oedd yn cael ei fwyta amlaf gan yr holl ymatebwyr ar draws y ddau Gam. Yng Ngham 1, dywedodd 69% eu bod yn bwyta cig bob dydd, a dywedodd 66% yr un fath yng Ngham 2.

- 1.40 Pysgod oedd yn cael eu bwyta leiaf aml ar draws y ddau Gam (2% bob dydd yng Ngham 1, 1% yng Ngham 2) wedi'u dilyn gan gig coch (3% bob dydd yng Ngham 1, 2% yng Ngham 2).
- 1.41 Ar draws y ddau Gam, roedd ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch yn bwyta ffrwythau a llysiau yn amlach nag ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd is:
- Cam 1: dywedodd 87% o'r rhai ag incwm aelwyd uwch na £50,000 eu bod yn bwyta ffrwythau/llysiau o leiaf 5 diwrnod yr wythnos o'i gymharu â 66% o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999.
 - Cam 2: dywedodd 86% o'r rhai ag incwm aelwyd uwch na £50,000 yr un fath, o'i gymharu â 64% o'r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,999.
- 1.42 Yn ôl oedran, roedd ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed yn bwyta cig gwyn yn amlach nag ymatebwyr hŷn yn y ddau gam. Fodd bynnag, roedd y grŵp iau hwn hefyd yn bwyta cynhyrchion llaeth, ffrwythau a llysiau yn llai aml:
- Cig gwyn: Yng Ngham 1, dywedodd 25% o'r rhai 18 i 34 oed eu bod yn bwyta cig gwyn o leiaf 5 diwrnod yr wythnos yng Ngham 1 o'i gymharu ag 11% o'r rhai 65 oed a hŷn. Yng Ngham 2, roedd 20% o ymatebwyr 18 i 34 yn gwneud yr un fath, o'i gymharu â 10% o'r rhai 65 oed a hŷn.
 - Cynhyrchion llaeth: Yng Ngham 1, dywedodd 67% o'r rhai 18 i 34 oed eu bod yn bwyta cynhyrchion llaeth o leiaf 5 diwrnod yr wythnos o'i gymharu ag 86% o'r rhai 65 oed a hŷn. Ar gyfer Cam 2, 71% o bobl 18 i 34 oed oedd y ganran, o'i gymharu ag 81% o'r rhai 65 oed a hŷn.
 - Ffrwythau a llysiau: dywedodd 69% o'r rhai 18 i 34 oed eu bod yn bwyta ffrwythau a llysiau o leiaf 5 diwrnod yr wythnos yng Ngham 1, o'i gymharu ag 80% o'r rhai 65 oed a hŷn. Ar gyfer Cam 2, roedd 65% o'r grŵp oed iau yn gwneud hynny, o'i gymharu ag 80% o'r rhai 65 oed a hŷn.
- 1.43 Dywedodd ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod yn taflu llai o fwyd i ffwrdd ac yn ailgylchu gwastraff bwyd yn fwy rheolaidd nag ymatebwyr o grwpiau oedran eraill (18% a oedd yn 65 oed a hŷn, o'i gymharu â 5-10% o grwpiau oedran eraill yng Ngham 1, 20%, o'i gymharu â 7-13% o grwpiau oedran eraill yng Ngham 2).
- 1.44 Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn ymgymryd â llai o arferion bwyd cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal, er bod y gwahaniaeth hwn yn fwy amlwg yng Ngham 1. Yn benodol, yng Ngham 2, roedd y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad yn debyg i grwpiau eraill o ran

gwirio dyddiadau 'defnyddio erbyn' neu 'ar ei orau cyn' bwydydd a brynwyd (69% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 69-79% o fathau eraill o ardal), prynu bwyd tymhorol yn fwriadol (26% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 23-30% o fathau eraill o ardal), a phrynu bwyd a dyfwyd yn lleol yn fwriadol (26% o gefn gwlad neu bentref bach o'i gymharu â 26-33% o fathau eraill o ardal), a hwn oedd y grŵp lleiaf tebygol o wneud y rhain yng Ngham 1.

- 1.45 Yn y ddau Gam, dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach eu bod yn compostio gwastraff bwyd (28% o gefn gwlad neu bentref bach, o'i gymharu ag 16-18% o fathau eraill o ardal yng Ngham 1, 26%, o'i gymharu â 19-22% o fathau eraill o ardal yng Ngham 2).
- 1.46 Roedd mân wahaniaeth rhwng ymatebion Cam 1 a Cham 2 i'r cwestiynau Bwyd eraill a ddadansoddwyd yn adroddiadau Camau 1 a 2.

Bywyd dyddiol

- 1.47 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am arferion cynaliadwy y gallent ymgymryd â nhw yn eu bywyd dyddiol.
- 1.48 Y tri arfer mwyaf cyffredin ar gyfer yr holl ymatebwyr oedd rhoi neu werthu eitemau nad ydynt eu heisiau (66% yng Ngham 1, 68% yng Ngham 2), ailgylchu eitemau nad ydynt eu heisiau (65% yng Ngham 1, 68% yng Ngham 2), a defnyddio cynhyrchion aml dro (66% yng Ngham 1, 65% yng Ngham 2).
- 1.49 Roedd ymatebwyr benywaidd yn ymgymryd â mwy o arferion cynaliadwy nag ymatebwyr gwrywaidd yng Ngham 1 ac yng Ngham 2. Er enghraifft:
- Prynu'n ail law: dywedodd 55% o ymatebwyr benywaidd eu bod yn prynu eitemau ail law o'i gymharu â 36% o ymatebwyr gwrywaidd yng Ngham 1, 60% o'i gymharu â 41% yng Ngham 2
 - Rhoi neu werthu eitemau nad ydynt eu heisiau: dywedodd 75% o ymatebwyr benywaidd eu bod yn rhoi neu'n gwerthu eitemau nad ydynt eu heisiau o'i gymharu â 59% o ymatebwyr gwrywaidd yng Ngham 1, 75% o'i gymharu â 60% yng Ngham 2
 - Defnyddio cynhyrchion aml dro: dywedodd 72% o ymatebwyr benywaidd eu bod yn defnyddio cynhyrchion aml dro o'i gymharu â 57% o ymatebwyr gwrywaidd yng Ngham 1, 70% o'i gymharu â 60% yng Ngham 2

1.50 Ar draws y ddau Gam, roedd bron i bob un o'r arferion cynaliadwy yn cael eu cyflawni gan gyfran fwy o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch (dros £50,000 y flwyddyn) o'u cymharu â'r rhai ag incwm aelwyd is (hyd at £19,999 y flwyddyn). Er enghraifft:

- Dewis busnesau cynaliadwy yn fwriadol: Yng Ngham 1, roedd 31% o ymatebwyr ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 yn dewis busnesau cynaliadwy, o'i gymharu ag 16% o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999. Yng Ngham 2, roedd 32% o ymatebwyr ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 yn gwneud hynny, o'i gymharu â 13% o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999.
- Ailgylchu eitemau nad ydynt eu heisiau: Yng Ngham 1, roedd 77% o ymatebwyr ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 yn ailgylchu eitemau nad ydynt eu heisiau, o'i gymharu â 63% o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999. Yng Ngham 2, roedd 77% o ymatebwyr ag incwm aelwyd o fwy na £50,000 yn gwneud hynny, o'i gymharu â 61% o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999.

1.51 Ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd oedd â'r cyfraddau ymateb isaf ar gyfer yr holl arferion cynaliadwy yng Ngham 1 ac yng Ngham 2.

1.52 Prin oedd y gwahaniaeth rhwng ymatebion Cam 1 a Cham 2 i'r cwestiynau Bywyd Dyddiol eraill.

Teithio

1.53 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hymddygiad teithio.


1.54 Roedd mwyafrif yr holl ymatebwyr yn byw ar aelwyd â mynediad at o leiaf un cerbyd (84% yng Ngham 1, 83% yng Ngham 2). Roedd gan gyfran is o ymatebwyr a oedd ag incwm aelwyd hyd at £19,999 (30% yng Ngham 1, 34% yng Ngham 2) neu a oedd yn ddi-waith (42% yng Ngham 1, 45% yng Ngham 2) fynediad at gerbyd o'u cymharu â grwpiau eraill.

1.55 O gymharu'r ymatebion gan ymatebwyr ag incwm aelwyd mwy na £50,000 â'r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,999, roedd gan y grŵp incwm uwch fynediad at fwy o gerbydau (96% a mynediad at o leiaf un car o'i gymharu â 70% yng Ngham 1, 96% o'i gymharu â 66% yng Ngham 2) a mwy o gerbydau hybrid a thrydan (16% hybrid, 8% trydan yng Ngham 1, 20% hybrid, 9% trydan yng Ngham 2).

1.56 O ran ymddygiadau teithio¹, roedd ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch hefyd yn wahanol i'r rhai ag incymau is ar draws y ddau Gam:

- Beicio: Roedd 15% o ymatebwyr Cam 1 ag incwm aelwyd mwy na £50,000 yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 6% o'r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,000. Yng Ngham 2, roedd hyn yn 10% o'r enillwyr uwch o'i gymharu ag 8% o'r enillwyr isaf.
- Teithio ar awyren: Yng Ngham 1, dywedodd 59% o'r rhai ag incwm aelwyd uwch na £50,000 eu bod yn teithio ar awyren o leiaf unwaith y flwyddyn o'i gymharu â 17% o'r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,000. Ar gyfer Cam 2, roedd 62% o'r enillwyr uwch yn gwneud hynny o'i gymharu â 25% o'r enillwyr is (Ffigur 0.4).
- Gwyliau pellter maith: Dywedodd 25% o'r rhai ag incwm aelwyd uwch na £50,000 eu bod wedi bod ar o leiaf un pellter gwyliau maith yn y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 7% o'r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,000 yng Ngham 1. Ar gyfer Cam 2, roedd hyn yn 18% o'i gymharu â 10%.

Ffigur 0.4: Teithio ar awyren yn ôl incwm aelwyd: pawb a'r enillwyr uchaf ac isaf - 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? Awyren' Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn a 3 neu 4 gwaith y flwyddyn



Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 1 a Cham 2 2024. Aml-ddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Pob incwm. Sylfaen C1 = 899 (Hyd at £19,999 = 175), Sylfaen C2 = 903 (Hyd at £19,999 = 165)

¹ Gan gynnwys teithiau byr a maith, ond heb gynnwys gweithgareddau fel cerdded neu feicio ar gyfer pleser, ymarfer corff neu fynd â'r ci am dro

- 1.57 Yng Ngham 1 ac yng Ngham 2 roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn llai tebygol o fod wedi mabwysiadu arferion teithio cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal, er bod y gwahaniaeth yn fwy amlwg yng Ngham 1 nag yng Ngham 2. Er enghraifft:
- Defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle'n bosibl: Yng Ngham 1, roedd 17% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle'n bosibl, o'i gymharu â 45% o'r ymatebwyr sy'n byw ym maestrefi dinas neu dref fawr, 45% sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr, a 38% sy'n byw mewn pentref mawr neu dref fach. Yng Ngham 2, roedd 23% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle'n bosibl, o'i gymharu â 40% o'r ymatebwyr sy'n byw ym maestrefi dinas neu dref fawr, 47% sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr, a 29% sy'n byw mewn pentref mawr neu dref fach
 - Cerdded lle'n bosibl: Yng Ngham 1, roedd 41% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn cerdded/defnyddio cadair olwyn lle'n bosibl, o'i gymharu â 73% o'r ymatebwyr sy'n byw ym maestrefi dinas neu dref fawr, 68% sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr, a 67% sy'n byw mewn pentref mawr neu dref fach. Yng Ngham 2, roedd 56% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn cerdded/defnyddio cadair olwyn lle'n bosibl, o'i gymharu â 70% o'r ymatebwyr sy'n byw ym maestrefi dinas neu dref fawr, 71% sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr, a 63% sy'n byw mewn pentref mawr neu dref fach
- 1.58 Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r cwestiynau Teithio yn debyg ar gyfer Cam 1 a Cham 2.

Casgliad

- 1.60 Comisiynwyd yr arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru i ddeall agweddau ac ymddygiadau yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o newid ymddygiad a chymdeithas ac yn hysbysu datblygiad a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o ran datgarboneiddio.
- 1.61 Cynhaliwyd yr arolwg mheintio cyntaf o chwe cham ym mis Awst a mis Medi 2023. Cynhaliwyd yr ail arolwg ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024. Roedd dros 940 o ymatebwyr i'r ddau arolwg ac roedd y setiau data a gasglwyd yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru.
- 1.62 Nodwyd manylion detholiad o allbynnau arolygu o'r ddau arolwg yn yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad wedi cymharu'r ddau gam ac wedi nodi agweddau tebyg rhwng ymatebion ac unrhyw newidiadau i agweddau neu ymddygiadau'r sampl cyffredinol neu grŵp wedi'i ddadgyfuno o fewn y sampl.
- 1.63 Ar y cyfan, roedd ymddygiadau ac agweddau ar draws dau gam yr arolwg yn debyg. Dywedodd chwe deg y cant o'r ymatebwyr bod newid hinsawdd yn digwydd yn wedi'i achosi'n llwyr neu'n bennaf gan weithgarwch dynol. Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd i gredu nad oedd newid hinsawdd yn digwydd ac o fod yn llai pryderus am ei effeithiau. Nodwyd mân wahaniaethau o ran agweddau ymatebwyr iau at ba grwpiau cymdeithasol sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd, ag ymatebwyr iau Cam 1 yn neilltuo lefelau uwch o gyfrifoldeb i'r Cyhoedd yn Gyffredinol, y Gymuned Leol a'u Cyngor, na'r rhai yng Ngham 2.
- 1.64 Ar draws y ddau Gam, roedd bron i'r holl ymatebwyr wedi cymryd camau i leihau defnydd o ynni, er bod gan aelwydydd ag incwm uwch fwy o fesurau arbed ynni wedi'u gosod yn eu cartrefi.
- 1.65 Yn yr un modd, ar draws y ddau Gam, roedd bron i'r holl ymatebwyr yn ymgymryd ag arferion cynaliadwy wrth siopa am fwyd neu baratoi prydau bwyd, er bod aelwydydd yng nghefn gwlad neu mewn pentrefi bach yn ymgymryd â llai o arferion bwyd cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal.
- 1.66 Roedd mwyafrif yr holl ymatebwyr yng Nghamau 1 a 2 yn byw ar aelwyd â mynediad at o leiaf un cerbyd. Roedd gan ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch fynediad at fwy o gerbydau, mwy o gerbydau hybrid a thrydan, yn beicio'n amlach,

yn teithio ar awyren yn amlach ac yn mynd ar fwy o wyliau nag ymatebwyr eraill. Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn llai tebygol o fod wedi mabwysiadu arferion teithio cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Yng Ngham 2, dywedodd rhyw fymryn yn fwy o ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd is eu bod wedi teithio ar awyren nag yng Ngham 1.

- 1.67 Bydd allbynnau camau arolygu'r dyfodol yn cael eu dadansoddi i weld a yw'r rhain yn newidiadau i agweddau ac ymddygiadau, neu'n amrywiad naturiol yn y sampl yn unig.
- 1.68 Bwriedir i'r camau arolygu canlynol gael eu cynnal ym mis Awst 2024, mis Chwefror 2025, mis Awst 2025 a mis Chwefror 2026.

Cyfyngiadau'r arolwg

- 1.69 Gallai sawl ystyriaeth fethodolegol a dadansoddol effeithio ar y dehongliad o'r canfyddiadau.
- 1.70 Yn gyntaf, roedd dadansoddiad yr arolwg yn gwbl ddeunewidyn, sy'n golygu ei fod yn ystyried y berthynas rhwng dau newidyn ar y pryd yn unig. Nid yw'r dull hwn yn nodi sut y gallai ffactorau lluosog ryngweithio i ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau unigolion o ran newid hinsawdd. Mae'n bosibl y gallai cysylltiadau a arsylwyd rhwng newidynnau demograffig ac agweddau neu ymddygiadau newid hinsawdd gael eu hesbonio gan newidynnau drysu. Byddai dadansoddiad amlnewidyn yn cynnig dealltwriaeth â mwy o bwyslais o benderfynyddion canfyddiadau a gweithredoedd newid hinsawdd, ac yn caniatáu rheolaeth ar gyfer cysylltiadau drysu.
- 1.71 Hefyd, ni phwysolwyd canlyniadau'r arolwg i adlewyrchu'r boblogaeth ehangach. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r canfyddiadau yn gynrychiadol o agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 1.72 Er bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o'r cyhoedd yng Nghymru yn seiliedig ar ddemograffeg sampl allweddol, dangosodd yr arolwg fân wahaniaethau o ddata'r cyfrifiad ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo. Gallai hyn fod wedi deillio, yn rhannol, o duedd hunan-ddethol. Gallai'r anghydbwysedd hwn yng nghyfansoddiad y sampl arwain at ganfyddiadau unochrog, gan y gallai safbwyntiau ac ymddygiadau grwpiau sydd wedi'u gorgynrychioli ddylanwadu ar y canlyniadau yn anghymesur, ac felly methu ag adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn gywir.

- 1.73 Ar y llaw arall, roedd maint sampl rhai grwpiau a ymleiddiwyd, fel lleiafrifoedd ethnig penodol, yn rhy isel yn yr arolwg hwn i ddarparu gwybodaeth y gellir ei chyffredinoli. Efallai y bydd angen dulliau ategol eraill yn y dyfodol i wella dealltwriaeth am y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newid hinsawdd a pholisïau hinsawdd.
- 1.74 Hefyd, ceir y potensial ar gyfer tuedd yn atebion yr ymatebwyr. Gallai cyfranogwyr, yn ymwybodol neu'n ddiarwybod, ddiwygio eu hymatebion oherwydd rhagfarnau neu ragdybiaethau cynhenid. Gallai hyn guddio gwir natur agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd o ran newid hinsawdd.
- 1.75 Yn olaf, efallai fod canfyddiadau'r arolwg wedi cael eu dylanwadu gan amgylchedd y cyfryngau. Gallai eitemau a oedd yn amserol yn y cyfryngau ar adeg yr arolwg fod wedi effeithio ar gryfder teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr, o bosibl yn chwyddo agweddau neu bryderon penodol mewn ffyrdd nad ydynt yn cynrychioli safbwyntiau hirdymor yn gywir. Fel yr amlygwyd uchod, bydd camau'r dyfodol yn helpu i nodi a oedd hyn yn wir ai peidio.